Diweddariadau'r wythnos o CGGC

18 AWST 2019

Helo, a chroeso i gylchlythyr yr wythnos hon.

Rydym newydd gyhoeddi Gwobrau Elusennau Cymru newydd sbon a noddir gan Class Networks. Mae'r gwobrau yn cydnabod ac yn dathlu cyfraniad arbennig elusennau, grwpiau cymunedol, cwmnïau dielw a gwirfoddolwyr at Gymru. Mae'r cyfnod enwebu ar agor tan 2 Hydref 2019, am fwy o wybodaeth ewch i gwobrauelusennau.cymru.

Bydd aelodau CGGC yn derbyn gwybodaeth heddiw am ein hetholiadau ymddiriedolwyr. Y flwyddyn hon rydym yn chwilio am bedwar aelod bwrdd deinamig a brwdfrydig sy'n bwriadu gwneud Cymru'n le gwell. Er gall unrhyw un ddod yn ymddiriedolwr o CGGC, dim ond aelodau CGGC all ethol ymddiriedolwyr newydd i ymuno â'n bwrdd. Mae'r pŵer yn eich dwylo chi. Mae mwy o wybodaeth yma.

Diolch am ddarllen, welwn i chi eto'r wythnos nesaf.

Ar agor ar gyfer enwebiadau

Gwobrau newydd sbon yw Gwobrau Elusennau Cymru, a drefnir gan CGGC.

Darllen mwy

Cyllid diweddaraf

Ymddiriedolaeth Dulverton

Mae grantiau ar gael i fudiadau sy'n gweithio yn y meysydd canlynol: ieuenctid, Affrica, cadwraeth amgylcheddol, cadwraeth adeiladau ac ati, lles cyffredinol a chymorth ar gyfer heddwch a dyngarwch.

Darllen mwy

Grantiau at Achosion Cymunedol

Gall grwpiau ymgeisio am grantiau gwerth hyd at £1,000 ar gyfer prosiectau a fydd o fudd i gymunedau lleol.

Darllen mwy

The Chestnut Fund

Mae grantiau are gael i annog a galluogi grwpiau cymunedol i gynnal gweithgareddau cadwraeth.

Darllen mwy

Gwirfoddoli

Panel sicrhau ansawdd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr – sedd gwag

Rydym am benodi aelod annibynnol newydd i banel Sicrhau Ansawdd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr y Deyrnas Unedig.

Darllen mwy

Gwirfoddoli mewn Adran Damweiniau ac Achosion Brys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mae CGGC yn gofyn am enwebiadau i ymuno â'n bwrdd – helpwch ni i alluogi mudiadau yng Nghymru i wneud fwy o wahaniaeth gyda'n gilydd.

Darllen mwy

Gnewch wahaniaeth mawr fel ymddiriedolwr i CGGC

Mae CGGC yn gofyn am enwebiadau i ymuno â'n bwrdd – helpwch ni i alluogi mudiadau yng Nghymru i wneud fwy o wahaniaeth gyda'n gilydd.

Darrlen mwy

Cyngor ac arweiniad

Gweminar: Diweddariad Llywodraethu Elusennau

Y diweddariadau diweddaraf am lywodraethu elusennau

11 Medi 2019, 14:00 - 15:00

Darllen mwy

Ennyn Effaith Cymru – Arolwg yr Haf 2019

Ydych wedi cydweithio gyda'r Prosiect Ennyn Effaith yng Nghymru?

Darllen mwy

Hyfforddiant a digwyddiadau

Rheolaeth ariannol elusennau - Gwarchod eich Arian

Beth yw'r ffordd orau o warchod eich mudiad rhag twyll, colled neu gamddefnydd ariannol? Dewch i ddysgu sut i'ch amddiffyn eich hun rhag arfer ariannol gwael ar ein cwrs Gwarchod eich Arian.

24 Hydref 2019, Caerdydd

Darllen mwy

Rheoli prosiectau

Rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar reoli prosiectau, wedi'i hardystio gan ILM.

27 a 28 Tachwedd 2019, Caerdydd

Darllen mwy

Polisi a prosiectau

Ymgynghoriad Cyllideb Ddrafft: Rydym eisiau eich barn!

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn am farnau ar beth ddylai gael ei gynnwys yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-2021.

Darllen mwy

Cyfle am secondiad i arweinydd elusen

Mae Sefydliad Lloyds Bank yn cynnig cyfle am secondiad i arweinydd elusen bach ei maint.

Darllen mwy